Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11eg o Hydref 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby, Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Lesley Prosser, Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Cof 158 / Hyd / 17 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 159 / Hyd / 17 Cyfrifon i'w Talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) sbwriel	£ 180.00	£ 36.00	£ 216.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) glaswellt	£1,130.00	£ 226.00	£ 1,356.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) sbwriel	£ 100.00	£ 20.00	£ 120.00*
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) glaswellt	£1,020.00	£ 204.00	£ 1,224.00*
Yswiriant Zurich Municipal	£3,752.86		£ 3.752.86*
Grant Thornton (archwiliad) (yn aros)	£ 276.00	£ 55.20	£ 331.20*
Sefydliad/Neuadd Gyhoeddus (rhent storio 6 mis)	£ 271.00		£ 271.00*
DW Furlong (DD638)(pibell nwy neuadd y sir)	£ 262.25	£ 52.45	£ 314.70*
Relm signs (10 fest gweledd uchel)	£ 59.50	£ 11.90	£ 71.40*
Absolute Marquees (llogi byrddau)	£ 50.00	£ 10.00	£ 60.00*
LBS Homes & Garden (vis)	£ 8.78		£ 8.78
Hugh Gwynne (torri glaswellt Parc Penlan Gorff)	£1,370.00	£ 274.00	£ 1,644.00*
Hugh Gwynne (sbwriel Parc Penlan Gorff)	£ 200.00	£ 40.00	£ 240.00*
Hugh Gwynne (torri glaswellt Parc Le Conquet)	£1,360.00	£ 272.00	£ 1,632.00*
Hugh Gwynne (sbwriel Parc Le Conquet Gorff)	£ 90.00	£ 18.00	£ 108.00*

Bacs * Siec #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

Cof 160 / Hyd / 17 Doedd dim Incwm a dderbyniwyd ers y 13eg o Fedi 2017 hyd yn hyn

Cof 161 / Hyd / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 09/10 /17)	£ 42,150.49
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 09 /10/17)	£ 1,958.05
Cyfrif Maer CTLl (Barclays) (11/10/17)	£ 2,437.46
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cof 162/ Hyd / 17 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad ar y Gyllideb hyd at ddiwedd Medi (Ch2)

Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod, i roi amser i'r Aelodau ei astudio. Hyd yn hyn, dim ond £19,800 a dderbyniwyd oddi wrth CSG, fel rhan o'r trefniant Trosglwyddo Asedau. Gobeithiwyd byddai'r taliad nesaf yn cael ei dderbyn cyn gynted ag y byddai gweithred gyfamodi Parc Le Conquet wedi cael ei arwyddo.

Rhoddodd Mr Plummer ddadansoddiad manwl o'r amrywiol benawdau gwariant. Pwysleisiodd yr angen i gadw o fewn y gyllideb. Roedd cyfanswm o £7,707.00 wedi cael ei wario ar Barc Penlan hyd yn hyn.

Roedd wedi clustnodi £ 2,300 ar gyfer tasgau unigol brys, a fyddai'n cynnwys £1,300 fel y diffyg ariannol i brynu peiriant torri gwair i'r Clwb Bowls.

Cof 163/ Hyd /17 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Nigel Davies, ynglŷn â Sefydliad a Neuadd Gyhoeddus Llandeilo.

Roedd Mr Davies wedi cyflwyno anfoneb ddiwygiedig i gynnwys rhent am 6 mis, ynghyd â chost y trydan a ddefnyddiwyd gan y Cyngor wrth wneud gwaith atgyweirio yn yr adeilad. Dywedodd wrth y Cyngor hefyd y byddai'r Sefydliad yn cynnal Diwrnod Agored ar ddydd Sadwrn y 18fed o Dachwedd, yn y gobaith y gallent ddenu aelodau newydd. Nodwyd.

2. Llywodraeth Cymru, ynglŷn â chyllideb ddrafft ac ymgynghoriad ar dreth trafodion tir. Nodwyd.
3. Relm signs, ynglŷn ag anfoneb DD629 am £45. Byddai'r cwmni'n gwneud y gwaith yn rhad ac am ddim, a byddai'r £45 yn cael ei roddi i apêl y Goeden Nadolig.
4. Cymdeithas Chwaraeon Llandeilo a'r Cylch, cais am gymorth ariannol.

Fe wnaeth y Cyng. Edward Thomas a'r Swyddog Cyllid arwyddo'r llyfr Datganiadau o Fuddiant ac ni wnaethant gyfranogi yn yr eitem, oherwydd eu bod yn aelodau o'r pwyllgor dan sylw.

Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod £2,000, y swm a glustnodwyd yn y gyllideb, yn cael ei roddi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

Cof 164 / Hyd / 17 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol.

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu'r adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd bod y ffitiad golau yn y swyddfa yn ddiffygiol. Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod ffitiad newydd yn cael ei brynu a'i osod am uchafswm cost o £150, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

Cof 165 / Hyd / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40yh.